


cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR



Sut i apelio

www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk



student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

BETH YW CYLLID MYFYRWYR CYMRU?

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cyllid i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.

BETH YW APÊL?

Byddwn yn gwneud ein gorau i asesu eich cais am gyllid i fyfyrwyr mewn ffordd deg bob amser, gan gydymffurfio gyda'r cyfreithiau sy'n diffinio pwy all gael cyllid i fyfyrwyr a faint allant gael. Weithiau gallech ystyried nad ydym wedi asesu eich cais am gyllid i fyfyrwyr yn unol â'r cyfreithiau hyn. Mewn achos o'r fath, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniadau a wnaethom.

Mae apêl yn gais ffurfiol gennych chi i Gyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) i adolygu ein penderfyniadau ynghylch pa gyllid i fyfyrwyr yr ydych yn gymwys i'w gael, a faint.

Pan fyddwch yn apelio, bydd angen i chi ddweud wrthym:

- pa benderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn
- pam bod ein penderfyniad yn anghywir yn eich barn chi

Dylech anfon unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'ch apêl hefyd.

SUT I APELIO

Mae tri modd o wneud apêl:

- Anfon ffurflen apelio atom – gallwch lawrlwytho hon o: www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk
- Anfon neges e-bost atom, at: formal_appeals@slc.co.uk
- Ysgrifennu atom, yn:

Cyllid Myfyrwyr Cymru Apeliadau Ffurfiol
Blwch Post 220
Cyffordd Llandudno
LL30 9GE

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Cyn pen pum diwrnod gwaith – byddwn yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich apêl.

Cyn pen 15 diwrnod gwaith – byddwn yn anfon ymateb llawn atoch i'ch hysbysu o'n penderfyniad.

Os byddwn angen rhagor o dystiolaeth gennych, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Byddwn yn aros nes bod gennym bopeth sydd ei angen cyn i ni roi gwybod i chi beth yw ein penderfyniad.

BETH OS NA FYDDAF YN FODLON GYDA'R YMATEB Y BYDDAF YN EI GAEL?

Os na fyddwch yn fodlon gyda'n penderfyniad, gallwch ofyn i'ch apêl gael ei throsglwyddo i'r rheolwr uwch perthnasol. Bydd yn rhoi gwybod i chi ei fod wedi cael eich apêl cyn pen pum diwrnod gwaith, gan anfon ymateb atoch cyn pen 15 diwrnod gwaith.

BETH FYDD YN DIGWYDD OS BYDDAF YN DAL YN ANFODLON?

Os na fyddwch yn fodlon gyda'r penderfyniad a wnaethpwyd gan y rheolwr uwch, gallwch ofyn i'ch apêl gael ei throsglwyddo i'r Aseswr Annibynnol. Mae'r Aseswr Annibynnol yn hollol ddiudedd a bydd yn gwneud argymhellion i CMC. Trosglwyddir eich apêl i'r Aseswr Annibynnol cyn pen 10 diwrnod gwaith, yna byddwch yn cael adroddiad terfynol cyn pen 28 diwrnod.

CWYNION

Os na fyddwch yn fodlon gyda'n cynhyrchion neu'r gwasanaeth a gawsoch, dylech ddefnyddio'r broses gwyno. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein proses gwyno trwy droi at: www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk

SUT ALLA I APELIO?

1

Dylech gysylltu â ni i apelio yn erbyn penderfyniad.

2

Bydd ein tîm yn adolygu eich apêl.

3

Os na fyddwch yn fodlon gyda'n hymateb, bydd eich apêl yn cael ei adolygu gan y rheolwr uwch perthnasol.

4

Os ydych yn dal yn anfodlon, bydd eich apêl yn cael ei adolygu gan Aseswr Annibynnol.

